

Adolygiad gan Gymheiriaid o Ganser Wrolegol 2014

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ysbyty Brenhinol Gwent

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD

Y Tîm Adolygu gan Gymheiriaid

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Tom Crosby	Cyfarwyddwr Meddygol	Rhwydwaith Canser De Cymru
Andrew Thomas	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Yvonne Lush	Rheolwr Datblygu	Gweithiwr Cymorth Macmillan
Damian Heron	Cyfarwyddwr Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru
Mansel Thomas	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Nick Stuart	Oncolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Einir Price	Rheolwr Adolygu	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Debra Bennett	Adolygiad gan Gymheiriaid o Raglen Ganser	Rhwydwaith Canser De Cymru

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	
Teitl Tîm	Tîm Amlddisgyblaethol Wroleg	
Teitl Dyddiad Adolygu	Dydd Mawrth 28 Ionawr 2014	
Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Adam Carter	Wrolegydd Ymgynghorol (Arweinydd Tîm Amlddisgyblaethol)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Jane Hart	Nyrs Arwain Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Duncan Ingrams	Clinigydd Arwain Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
David Fleming	Radiolegydd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin

	Ymgynghorol	Bevan
Jim Wilson	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Danny Painter	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Sarah Flowers	Seicoleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Mike Hague	Rheolwr Arwain Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Janet Marty	Nyrs Glinigol Arbenigol Wro-oncoleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Stef Young	Ymarferydd Nyrsio Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Julie Simpson	Nyrs Glinigol Arbenigol Wro-oncoleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Jason Lester	Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Maureen Hunter	Ymarferydd Nyrsio Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Doug Hymers	Rheolwr Gwasanaethau Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Jackie Sliczny	Dirprwy Reolwr Cymorth Gwasanaethau Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Andrea Cameron	Cydgysylltydd Tîm Amlddisgyblaethol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Themâu Allweddol

1 Strwythur a Swyddogaeth y Gwasanaeth

Mae'r tîm yn sefydledig iawn ac mae ganddo ethos gwaith da iawn. Mae'n amlwg yn brysur iawn ac yn rhoi pwyslais mawr ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'w cleifion. Roedd cynrychiolaeth dda yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, ar wahân i fewnbwn gan Ofal Lliniarol (57%). Mae cefnogaeth dda gan Nyrsys Clinigol Arbenigol, cymorth oncoleg, radiolog, patholeg a seicoleg, ac mae llwybrau rhagorol ar waith, ond nodwyd nad oedd Patholegydd yn bresennol yn ystod y cyfarfod adolygu.

Nodwyd bod Clinigydd Arwain y Tîm Amlddisgyblaethol wedi ymgymryd â mwyafrif y gwaith o gwblhau'r dogfennau Hunan Asesu, ac mai prin oedd mewnbwn aelodau eraill y tîm o ran y wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd. Roedd y dogfennau wedi cael eu cymeradwyo gan Arweinydd y Tîm Amlddisgyblaethol, gyda chymorth gan y Tîm Amlddisgyblaethol.

Roedd problem ynglŷn â darparu data ar gyfer y ddogfen Hunan Asesu, a oedd yn golygu mai'r tîm hwn a gyflwynodd y lleiaf o ddata nag unrhyw Dîm Amlddisgyblaethol Wroleg arall ledled Cymru. Y farn oedd nad oedd y data a dderbyniwyd yn ganolog gan Canisc yn ddibynadwy, ond ni chymerwyd unrhyw gamau eraill i gael gafael ar y data hwn. Nid yw data'n cael ei ddilysu fel mater o drefn wrth iddo gael i fwydo i mewn i Canisc, ac roedd diffyg perchenogaeth clinigol o'r data. Roedd y tîm amlddisgyblaethol o'r farn bod problemau wrth gasglu data wrth Canisc, ac mae angen trafod hyn yn ganolog. Gwnaeth yr Oncolegydd nodi bod data oncoleg ar gael yn hawdd ond nad oedd yn ymwybodol bod data annigonol wedi cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses hon.

Mae'r holl atgyfeiriadau'n cael eu derbyn drwy E-atgyfeiriad ac maen nhw ar gael i'w gweld drwy'r man gwaith Clinigol. Mae clinigau Asiantaeth Diogelwch Cleifion ar y cyfan yn cael eu cynnal yn Ysbyty Brenhinol Gwent, ond mae cyfleusterau ar gael i'r cleifion hynny na allant deithio yn Ysbyty Nevill Hall. Mae Nyrs Glinigol Arbenigol yn bresennol yn y clinig yn y ddau ysbyty. Mae clinigau hefyd yn cael eu cynnal yn ardal Aberhonddu. I'r cleifion hynny fydd yn cael biopsi, mae proses sgrinio ar waith mewn perthynas â chyd-forbidrwydd. Caiff y cleifion eu trafod mewn cyfarfod tîm amlddisgyblaethol yn dilyn biopsi. Mae pob biopsi sgan uwchsain o'r rectwm (TRUS) yn cael ei gynnal yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Yna, y claf sy'n dewis pa ysbyty maen nhw'n ei fynyachu ar gyfer casglu eu canlyniadau ac unrhyw gamau pellach.

Mae cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnal yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd ar foreau Mercher. Mae'r Tîm Amlddisgyblaethol yn trafod nifer helaeth o gleifion mewn cyfnod byr iawn o amser; y farn oedd nad oedd hon yn broses gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o strategaeth i fynd i'r afael â hyn. Fe wnaeth y tîm bwysleisio y byddai'n dymuno cael sesiwn gyfan ar gyfer eu cyfarfod tîm amlddisgyblaethol, ond yn anffodus, byddai hyn yn golygu cryn dipyn o aildrefnu am fod yr Oncolegydd sydd ar ymweliad yn cynnal clinig yn uniongyrchol ar ôl cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Byddai angen i hyn gael sylw gan y Bwrdd Iechyd.

Ar hyn o bryd, trafodir pob claf sydd newydd gael diagnosis. Nodwyd nad oedd rhai o'r cleifion wedi cael eu trafod ac effeithiwyd ar lwybrau cleifion yn sgîl problemau capasiti. Anaml iawn y bydd y tîm yn trafod canlyniadau histoleg ar ôl y llawdriniaeth ac roedd yn cydnabod y gallai problemau capasiti fod wedi cyfrannu at ddefnyddio llai o driniaeth

bracitherapi o bosibl.

Defnyddir y modiwl cyfarfod tîm amlddisgyblaethol gan Gydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol, ond nid yn fyw yn ystod y Cyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Mae'r Cydgysylltydd yn bwydo'r data i mewn ar ôl hynny, yn ogystal â'r wybodaeth a wiriwyd gan y tîm. Nid yw'r modiwl yn cael ei ddefnyddio'n fyw oherwydd cynifer y cleifion a drafodir bob wythnos.

Mae Cydgysylltydd Llwybr wedi cael ei benodi'n ddiweddar a hynny ar gyfer secondiad o chwech mis sy'n tracio'r cleifion ar hyd y llwybr triniaeth, yn trefnu apwyntiadau ac yn mynd ar drywydd canlyniadau ac ati. Mae'r swydd hon yn rhyddhau'r Nyrsys Clinigol Arbenigol Wroleg a oedd yn gwneud y gwaith hwn yn wreiddiol. Mae'r swydd hon yn cael ei hariannu gan Gronfeydd Elusennol Wroleg.

Mae'r tîm yn cynnal cyfarfodydd busnes tu allan i gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ddwywaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2014. Trafodir unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth hwn ystod y cyfarfodydd hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu'r unig wasanaeth abladiad radio-amledd sydd ar gael yng Nghymru. Yn anffodus, mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ariannu gan gyllideb Radioleg y Bwrdd Iechyd, ac nid ar sail De Cymru. Nid yw'n glir am faint o amser y bydd y Bwrdd Iechyd yn gallu cynnal y gwasanaeth hwn heb gyllid ychwanegol. Mae un o'r Nyrsys Clinigol Arbenigol Wroleg yn rhan o'r gwasanaeth hwn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ganlyniadau perfformiad cymharol dda o ran targed amseroedd aros i gael triniaeth canser sef 62 diwrnod, Prostad 90%, Bledren 97% ac Arennol 92%, er ar yr amser adolygu, nid oeddent yn cydymffurfio â thargedau'r amseroedd aros.

Mae'r canran recriwtio ar gyfer Banc Canser Cymru tua 5%. Mae'r gyfradd hon yn is na mesur perfformiad Cynllun Cyflenwi Canser sef 20%. Ar hyn o bryd, mae dau aelod o staff Banc Canser yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd sy'n recriwtio cleifion. Nid oes unrhyw gynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd i roi'r cyfrifoldeb hwn i aelodau eraill o'r tîm Wroleg. Roedd recriwtio i dreialon clinigol yn isel (7 fesul blwyddyn) ond roedd yr oncolegydd o'r farn bod y rhifau yn llawer uwch, a chredai bod y ffigur yn isel yn sgîl cam gyfathrebu ag Ysbyty Felindre sy'n cadw'r data hwn.

Mae rhywfaint o gysylltiadau â gofal sylfaenol ar waith. Yn flaenorol, mae'r tîm wedi creu sesiynau ymwybyddiaeth iechyd i ddynion ond dim ond nifer fach iawn a wnaeth fynychu. Mae Meddygon Teulu yn rhan o gyfarfodydd pwyllgor Gwasanaeth Canser Byrddau Iechyd. Mae'r tîm hefyd wedi sefydlu gwasanaeth e-bost neilltuedig ar gyfer Meddygon Teulu, lle mae Meddygon Teulu yn anfon unrhyw ymholiadau neu faterion at y tîm dros yr e-bost, gyda therfyn ymateb 12 awr. Gwnaeth y Meddygon Teulu gais i roi'r system hon ar waith. Mae'r broses hon wedi cael ei harchwilio ac mae wedi derbyn canlyniadau cadarnhaol iawn.

Ar hyn o bryd, mae prosiect peilot un i un a ariennir gan Mamcillan sy'n cael ei gynnal yn Uned Gofal Sylfaenol Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyfraddau goroesi ac adsefydlu cleifion canser prostad a chanser y fron, ond maen nhw'n ystyried ei roi ar waith mewn meysydd arbenigol eraill. Mae un o Nyrsys Clinigol Arbenigol y tîm amlddisgyblaethol yn rhan o'r grŵp sy'n llywio'r prosiect hwn. Mae Macmillan wedi cyllido dau Feddyg Teulu arwain y prosiect. Y gobaith yw y bydd y prosiect yn arwain at leihad yn nifer y cleifion sy'n cael eu hadolygu mewn clinigau ysbytai, gan ryddhau apwyntiadau clinig.

Ar hyn o bryd, ni chynhelir llawdriniaeth brostad ymledol minimol gan y tîm ar sail barn

glinigol elfennol nad oes gan y dull hwn yn gyffredinol unrhyw fudd ychwanegol. Mae'r cleifion sydd angen llawdriniaeth laparosgopig ar y prostad yn cael eu hanfon naill ai i Fryste neu Abertawe. Mae un Ymgynghorydd Wroleg wedi ymgymryd â'r hyfforddiant arbenigol sydd ei angen ond bydd angen hyfforddiant adnewyddu arno oherwydd cynhaliwyd yr hyfforddiant diwethaf dair blynedd yn ôl. Roedd y tîm o'r farn bod problemau o ran tryloywder yn y cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar gyfer llawdriniaeth Robotig yng Nghaerdydd, ac roedd yn teimlo y byddai'n hoffi cael rhan fwy blaenllaw ynddi, ond bydd eu cleifion yn cael dewis llawdriniaeth Robotig pan fydd y gwasanaeth wedi'i sefydlu.

2 Gofal a Phrofiad sy'n Canolbwyntio ar y Claf

Mae'r tîm wedi gweld canlyniadau arolwg diweddar Macmillan ac wedi nodi rhai o'r materion allweddol. Roedd y tîm o'r farn ei fod yn siomedig mai dim ond 19 o gleifion prostad Gwent oedd wedi cymryd rhan yn yr arolwg, a bod y canlyniadau yn seiliedig ar 47 o gleifion heb ganser prostad. Roedd canlyniadau'r tîm yn dangos ei fod wedi gwneud yn eithaf da.

Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i sicrhau bod cynlluniau gofal ysgrifenedig yn haws i'w darllen.

Mae'r tîm eisoes wedi cymryd rhan mewn arolwg Boddhad Cleifion ar Nyrsys Arbenigol Wro-oncoleg yn 2012. Mae'r tîm yn ystyried cynnal mwy o arolygon i gleifion.

a. Tystiolaeth gweithiwr allweddol

Mae'r Nyrsys Clinigol Arbenigol yn ymgymryd â rôl y Gweithiwr Allweddol. Maen nhw'n bresennol ym mhob clinig arbenigol lle rhoddir manylion cyswllt. Maen nhw'n gweld cleifion o bob is-arbenigedd, a chynhelir clinigau dilynol i gleifion prostad ac arenol dan arweiniad nyrs. Mae'r Nyrsys Clinigol Arbenigol yn trawsgyflenwi ei gilydd.

Roedd gweithiwr allweddol wedi cael ei gofnodi mewn pedwar allan o'r pump o'r nodiadau achos yr edrychwyd arnynt, ac ym mhob un o'r pump o nodiadau achos Canisc

3 Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaeth

a. Cymorth i'r Gwasanaeth gan y Timau Amlddisgyblaethol

Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn derbyn cefnogaeth dda gan wasanaethau ehangach.

Ceir cefnogaeth ragorol gan wasanaethau radioleg, ac mae tri neu bedwar o'r radiolegwyr yn mynychu'r cyfarfod tîm amlddisgyblaethol. Nid oedd unrhyw bryderon o ran perfformio neffrostomi a/neu radioleg therapiwtig. Cynhaliwyd archwiliad o ran capasiti MRI yn ystod y ddwy flynedd nesaf, pan rhagwelir y bydd cynnydd o 200 yn nifer y sganiau MRI fydd yn cael eu cynnal. Mae'r adran yn chwilio am gyllid i recriwtio Radiolegydd Ymgynghorol sy'n ymddiddori mewn prostad MRI.

Mae hefyd cefnogaeth dda a mewnbwn o ran oncoleg yn y tîm amlddisgyblaethol, ac mae clinig oncoleg yn cael ei gynnal yn uniongyrchol ar ôl cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar foreau Mercher. Mar rhaglen ragweithiol dda ar waith yn ysbyty Felindre ar gyfer bracitherapi, ond oherwydd prinder capasiti'r clinig, nid yw'r cleifion risg isel yn gweld yr oncolegydd. Nifer fach o gleifion yw'r rhain. Y farn oedd ei fod yn debygol y byddai mwy o gleifion yn elwa ar y gwasanaeth hwn.

Mae Gwasanaeth Oncoleg Aciwt da ar waith, ynghyd â chefnogaeth ragorol ym maes seicoleg, ac mae proses ar waith ar gyfer Cywasgiad Madruddyn y Cefn Metastatig.

b. Data Canlyniadau'r Gwasanaeth

	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	Targed
Nifer yr atgyfeiriadau gofal heb ei drefnu a dderbyniodd driniaeth o fewn 62 diwrnod	Prostate 90% Bladder 97% Renal 92%	95%
diwrnodau nifer yr - atgyfeiriadau gofal heb ei drefnu a dderbyniodd driniaeth o fewn 32 diwrnod	Prostad 100% Pledren 100% Arennol 100%	98%
Nifer y cleifion yn y cyfnod cyn-triniaeth a gofnodwyd	Prostad 47% Prostad X Arennol X	70%
Nifer y cleifion a gafodd eu rhoi ar dreialon clinigol	7	10%
Nifer y cleifion yn rhoi i Fanc Cancer Cymru	52	
Nifer y cleifion a gafodd eu trafod mewn cyfarfod tîm amlddisgyblaethol	Prostad X Pledren X Arennol X	100%
Amser canolrifol ar gyfer cleifion â charsinoma trosiannol celloedd y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau ar ddechrau triniaeth iachaol ddiffiniol	Canolrifol 97 diwrnod	93 Diwrnod
Amser canolrifol cynnal echdoriad trawswrethrol o diwmor y bledren (TURBT)	34 Diwrnod	

c. Archwiliadau, prosiectau a chanlyniadau allweddol

Cynhaliwyd nifer o archwiliadau, a darparwyd canlyniadau'r archwiliadau hynny. Roedd llawer o'r archwiliadau wedi cael eu cynnal gan y Nyrsys Clinigol Arbenigol. Mae'r archwiliadau wro-oncoleg yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu cyflwyno ar ddiwrnodau archwilio'r Adran Wroleg. Mae archwiliadau penodol y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd archwiliadau/busnes y tîm amlddisgyblaethol sy'n cael eu cynnal dwywaith y flwyddyn.

d. Sylwadau cyffredinol

Oherwydd y diffyg data clinigol, nid oedd y tîm yn gallu asesu lle roedd y tîm arni o gymharu â'r tîmau amlddisgyblaethol Wroleg eraill ledled Cymru. Roedd mewnbyn cryf iawn gan y Nyrsys Clinigol Arbenigol i'r gwasanaeth, a nodwyd bod y Nyrsys Clinigol Arbenigol yn gnewyllyn hanfodol i'r gwasanaeth. Roedd ganddynt ffocws allblyg a pharodrwydd i ddysgu a sicrhau gofal ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

Perthnasau gwaith da yn y tîm gyda chefnogaeth ragorol wrth y gwasanaeth ehangach.

Nid oedd unrhyw ddiffygion sylweddol yn y tîm amlddisgyblaethol.

4 Adolygiad o Wybodaeth Glinigol yn y Nodiadau Clinigol a Canisc

Dangosodd adolygiad o bump o'r nodiadau achos sy'n defnyddio rhestr wirio'r cymheiriaid fod pedwar allan o'r pump o'r nodiadau achos yn cynnwys cofnod Gweithiwr Allweddol, cynlluniau gofal a chynlluniau Rheoli Canser a gofnodwyd gan y tîm amlddisgyblaethol, hysbysiadau i'r Meddygon Teulu ymhen 24 awr o gofnodi diagnosis mewn tri allan o'r pump o'r nodiadau achos ond a welwyd gan y nyrs glinigol arbenigol wedi'u cofnodi ym mhob un o'r pum ffeil o nodiadau achos.

Wrth wirio'r un nodiadau achos yn Canisc, roedd y pump ohonynt yn cynnwys cofnod o Weithiwr Allweddol, roedd Cynlluniau Gofal a Chynlluniau Rheoli Canser y cytunwyd arnynt yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol mewn tri allan o bump o'r nodiadau achos, roedd dau allan o'r pump o nodiadau achos wedi cael eu gweld gan nyrs glinigol arbenigol, ond ni chafodd hysbysu'r Meddyg Teulu ymhen 24 awr o roi diagnosis ei gofnodi yn unrhyw un o'r nodiadau achos yn Canisc.

5 Ymgysylltu â'r Rheolwyr

Mae'r pwyllgor Gwasanaethau Canser yn trafod ac yn cymeradwyo'r ymagwedd a fabwysiadwyd / a ddatblygwyd gan y sefydliad i reoli cancer ledled yr holl safleoedd tiwmor. Mae 2 aelod o'r tîm amlddisgyblaethol yn aelodau o'r pwyllgor hwn ac maen nhw'n darparu cyngor ar gyflenwi gwasanaethau cancer.

6 Diwylliant y Timau

Gwnaeth y panel nodi bod perthynas waith rhagorol o fewn y tîm ac o fewn y gwasanaethau ehangach a bod nifer o feysydd yn dangos enghreifftiau gwych o'r gofal y dylai'r holl dimau amlddisgyblaethol yng Nghymru anelu tuag ato. Roedd yn ymddangos bod y tîm yn cymryd perchenogaeth dros ansawdd y gofal a dylid ei gymeradwyo am hyn. Mae'r tîm yn brysur iawn ac yn ddisgybledig.

Roedd nifer dda o bobl yn bresennol yn ystod y Cyfarfod Adolygu Cymheiriaid, ac er na chafodd y tîm y cyfle i ymgysylltu â rhan Hunan Asesiad y broses, roedd yn glir bod diddordeb brwd i ddysgu gan unrhyw broblemau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses. Roedd y tîm yn rheoli ei bwysau gwaith mewn ffordd a oedd yn dangos ffocws a rheolaeth sydd hyd heddiw wedi sicrhau rheolaeth effeithlon o nifer fawr o gleifion. Fodd bynnag, nodwyd bod niferoedd y tîm amlddisgyblaethol yn sylweddol ac efallai na fydd yn bosibl cynnal y dull presennol. Roedd y tîm wedi dangos ychydig o ddealltwriaeth o'r materion hyn ond nid oedd wedi ystyried unrhyw gamau a allai ei helpu i addasu i'r cynnydd yn y pwysau gwaith.

ARFER DA / CYFLAWNIADAU ARWYDDOCAOL

- Roedd gan y tîm amlddisgyblaethol lwybrau clinigol da ar waith
- Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn dangos gwaith tîm da iawn
- Roedd perchenogaeth glinigol ragorol o ran ansawdd y gofal
- Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn darparu'r unig wasanaeth abladiad radio-amledd (RFA) yn Ne Cymru
- Canlyniadau perfformiad da
- Datblygwyd cysylltiadau cryf â'r uned gofal sylfaenol gan gynnwys y Prosiect 1:2:1
- Mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi sefydlu cyfarfodydd busnes rheolaidd

PERYGLON AR UNWAITH

Dim

PRYDERON DIFRIFOL

Dim

PRYDERON

- Nid oedd y tîm wedi cyfrannu at y ddogfennaeth ar gyfer y Broses Adolygu Cymheiriaid (derbyniwyd mai'r rheswm dros hyn oedd arweinydd clinigol gôr amddiffynnol)
- Diffyg data meintiol cadarn o ran ansawdd y gwasanaeth.
- Roedd capasiti Cyfarfod y Tîm amlddisgyblaethol o bosibl yn effeithio ar lwybrau cleifion a'r achosion a drafodwyd